Ein Treftadaeth
Our Heritage

# Dewch i ganfod hanes Llandudno yma!

Mae gan Llandudno bopeth – o'i gwreiddiau dirgel yn Oes yr Iâ, i fwyngloddiau cynhanesyddol anferth i'w ddyfodiad fel man gwyliau dymunol yn Oes Fictoria.

Ydych chi'n un am antur? Teithiwch ychydig filltiroedd tu allan i'r dref i weld tystiolaeth canrifoedd o oresgyniad y Rhufeiniaid, olion gwahanol deyrnasoedd canoloesol, a chadarnleoedd cynhanesyddol ar ben y bryniau lle mae golygfeydd gwych. Defnyddiwch ein map i gynllunio eich taith rhwng bob lleoliad.

**Ydych chi am archwilio ymhellach? Defnyddiwch y sgrîn gyffwrdd i ganfod mwy o safleoedd treftadaeth hynod a thrysorau cudd ledled gogledd Cymru.**

# Explore Llandudno's history here!

Llandudno surely has it all – from its mysterious Ice Age origins, its prehistoric mining on a huge scale to its birth as a charming Victorian holiday resort.

Feeling adventurous? Travel a few miles outside the town and encounter centuries of Roman occupation, the traces of volatile medieval kingdoms, and prehistoric hilltop strongholds with stunning views. Use our map to plan your trip between each destination.

**Want to explore even further? Use the touch- screen to discover more amazing heritage sites and hidden gems across north Wales.**





© Hawlfraint Ein Treftadaeth
© Copyright Our Heritage

### Mwyngloddiau Pen y Gogarth
### Great Orme Mines

Ewch i archwilio mwyngloddiau copr o'r Oes Efydd ar gopa Pen y Gogarth. Cerddwch drwy dwneli un o'r mwyngloddiau cynhanesyddol hynaf yn y byd, a chewch weld ceudwll a gloddiwyd gyntaf 3500 o flynyddoedd yn ôl.

Explore Bronze Age copper mines at the peak of the Great Orme. Walk through the tunnels of one of the oldest prehistoric mines in the world and discover a cavern first excavated 3500 years ago.


© Hawlfraint Ein Treftadaeth
© Copyright Our Heritage

### Tramffordd Pen y Gogarth
### Great Orme Tramway

Ewch am dro ar dram Oes Fictoria i gopa Pen y Gogarth – ar yr unig dramffordd gebl ym Mhrydain sy'n gweithredu ar y ffordd, ac sydd wedi bod yn destun mwynhad i deithwyr am dros gan mlynedd.

Ride a Victorian tramcar to the summit of the Great Orme, on the UK's only cable-hauled tramway using public roads, which has been delighting passengers for over a hundred years.


© Hawlfraint Amgueddfa Llandudno
© Copyright Llandudno Museum

### Amgueddfa Llandudno
### Llandudno Museum

Mae'r casgliad ardderchog yn Amgueddfa Llandudno yn adrodd hanes y dref a'i phobl, o'r oes a fu hyd heddiw. Mae'r gwrthrychau sy'n cael eu harddangos yn cynnwys teilsen Rufeinig ag ôl troed plentyn arni a chasgliad o esgyrn 13,000 o flynyddoedd oed o Ogof Kendrick ar Ben y Gogarth.

Llandudno Museum's superb collection tells the story of the town and its people from distant prehistory to the present day. Objects on display include a piece of Roman tile marked with a child's footprint and a collection of 13,000 year-old bones from Kendrick's Cave on the Great Orme.


© Hawlfraint Ein Treftadaeth
© Copyright Our Heritage

### Pier Llandudno
### Llandudno Pier

Mae Pier Llandudno wedi bod yn diddanu ymwelwyr ar eu gwyliau ers 1878. Mae'n ymestyn 700 medr i'r môr a dyma'r pier hiraf yng Nghymru. Beth am fynd am dro hamddenol ar hyd ei lawr pren a mwynhau hufen iâ?

Entertaining holidaymakers since 1878, Llandudno Pier projects 700 metres into the sea and is the longest pier in Wales. Why not take a stroll along its boardwalk and enjoy an ice cream?


© Hawlfraint Partneriaid Prosiect Tywysogion Gwynedd
© Copyright Princes of Gwynedd Project Partners

### Deganwy

Dringwch dros y bryn garw hwn i weld adfeilion Castell Deganwy, llys Maelgwn Gwynedd yn y chweched ganrif, llywodraethwr grymus Gwynedd. Bu gwrthwynebwyr yn ymladd dros safle'r cadarnle strategol hwn am ganrifoedd.

Climb this rugged hilltop to encounter the ruins of Deganwy Castle, the 6th century court of Maelgwn Gwynedd, infamous ruler of Gwynedd. Medieval adversaries fought over this strategically located stronghold for centuries.


© Hawlfraint Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
© Copyright Conwy County Borough Council

### Llys Euryn, Llandrillo yn Rhos
### Llys Euryn, Rhos on Sea

Ewch i archwilio adfeilion Llys Euryn – maenordy o'r 15fed ganrif a chanddo gorn simdde godidog 15 metr o uchder. Mae'r man hanesyddol hwn yn nodi lle'r oedd cartref Ednyfed Fychan yn y 13eg ganrif, sef Prif Weinidog Llywelyn Fawr, tywysog Gwynedd.

Explore the ruins of Llys Euryn – a 15th century manor house with a magnificent 15 metre chimney stack. This historic spot marks the site of the 13th century residence of Ednyfed Fychan, Chief Minister to Llywelyn the Great, prince of Gwynedd.


© Hawlfraint Cadw, Llywodraeth Cymru
© Copyright Cadw, Welsh Government

### Castell Conwy
### Conwy Castle

Rhyfeddwch at amddiffynfeydd canoloesol anhygoel y castell a muriau'r dref yng Nghonwy, sydd wedi sefyll yn gadarn am dros 700 o flynyddoedd. Gallwch fwynhau golygfeydd ysblennydd o'r môr a'r mynyddoedd o'r bylchfuriau.

Marvel at the outstanding medieval fortifications of the castle and town walls at Conwy, standing firm for over 700 years. You can experience spectacular mountain and sea views from the battlements.


© Hawlfraint Ein Treftadaeth
© Copyright Our Heritage

### Caerhun

Ewch ar drywydd gweddillion Canovium, y gaer Rufeinig ger glannau Afon Conwy yn Eglwys y Santes Fair, Caerhun, a dychmygwch y prysurdeb dyddiol yn yr anheddiad milwrol a masnachol hwn.

Discover the history of Canovium, the Roman fort by the banks of the River Conwy at St Mary's Church, Caerhun and imagine the bustle of activity at this military settlement and trading post.


© Hawlfraint Partneriaid Prosiect Tywysogion Gwynedd
© Copyright Princes of Gwynedd Project Partners

### Abaty Aberconwy (Eglwys y Santes Fair a'r Holl Saint, Conwy)
### Aberconwy Abbey (St Mary's and All Saints Church, Conwy)

Dewch i ddarganfod gweddillion Abaty Aberconwy yn awyrgylch heddychlon Eglwys y Santes Fair. Yn yr abaty hwn y claddwyd Llywelyn Fawr yn wreiddiol, ac fe ffynnodd yr abaty diolch i nawdd tywysogion Gwynedd.

Discover the remains of Aberconwy Abbey within the peaceful surroundings of St Mary's Church. The abbey was the original burial place of Llywelyn the Great and thrived through the sponsorship of the princes of Gwynedd.


© Hawlfraint Ein Treftadaeth
© Copyright Our Heritage

### Pen y Gaer, ger Llanbedr y Cennin

Cyfeirnod Map: SH76NW, Cyfeirnod Grid: SH74996930
Map Reference: SH76NW, Grid Reference: SH74996930

Mae gan fryngaer cynhanesyddol Pen y Gaer olygfeydd gwefreiddiol dros Ddyffryn Conwy, ac yma mae adfeilion 3 wal amddiffynnol ac 20 tŷ crwn – mae bendant yn werth dringo i'r copa!

The prehistoric Pen y Gaer hillfort commands breathtaking views over the Conwy Valley and includes the ruins of 3 defensive walls and 20 roundhouses – well worth the hike to the summit!


© Hawlfraint Sarah McCarthy
© Copyright Sarah McCarthy

### Eglwys Sant Grwst, Llanrwst
### St Grwst's Church, Llanrwst

Mae arch garreg Llywelyn ab Iorwerth (Llywelyn Fawr), tywysog enwog Gwynedd, yn gorwedd yn y capel heddychlon yn Eglwys Sant Grwst. Dyma'r man perffaith i fyfyrio'n dawel am ennyd.

The stone sarcophagus of Llywelyn ab Iorwerth (Llywelyn the Great), celebrated prince of Gwynedd, lies within the tranquil chapel at St Grwst's Church. This is the perfect spot for a moment of quiet contemplation.

Cyngor Gwynedd Council
Parc Cenedlaethol Eryri / Snowdonia National Park
Conwy – Cyngor Bwrdeistref Sirol / County Borough Council
ERDF – Llywodraeth Cymru / Welsh Government
Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich dyfodol – Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
Europe & Wales: Investing in your future – European Regional Development Fund
Cadw
Llywodraeth Cymru
Welsh Government